# Y Pwyllgor Darlledu

## BCC(3)-09-08 (p.1)

### Cyflwyniad gan Gyngor Cynulleidfa Cymru Ymddiriedolaeth y BBC

20 Mehefin 2008

### Y Cefndir

Sefydlwyd y Cynghorau Cynulleidfa dan Siarter Brenhinol y BBC yn Ionawr 2007. Eu pwrpas yw sicrhau bod safbwyntiau amrywiol y rhai sy'n talu ffi'r drwydded yn dylanwadu ar waith Ymddiriedolaeth y BBC ac i ddefnyddio'u cysylltiad â chymunedau, a'u dealltwriaeth o'r cymunedau hynny, i gynghori'r Ymddiriedolaeth ar ba mor dda y mae'r BBC yn hyrwyddo'i Ddibenion Cyhoeddus ac yn gwasanaethu'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded yn ardaloedd gwahanol y DU.

Ers ei sefydlu, mae Cyngor Cynulleidfa Cymru (CCC) wedi cyfrannu at ddatblygu Cynllun Diben y BBC ar gyfer hyrwyddo'i ddibenion cyhoeddus. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgynghori â'r Cyngor ynghylch y Trwyddedau Gwasanaeth a roddir ar gyfer pob un o wasanaethau teledu, radio ac ar-lein y BBC. Mae CCC wedi ymateb i ystod eang o ymgynghoriadau eraill; mae wedi astudio ymchwil ar gynulleidfaoedd; ac mae wedi rhoi cychwyn ar raglen ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol y BBC yng Nghymru, ac wrthi'n datblygu'r rhaglen honno.

### Ystyriaethau Allweddol

Rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer newid yng Nghymru gael eu harwain gan anghenion a gofynion y gynulleidfa yng Nghymru. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer newid ystyried y cyd-destun gwahanol yng Nghymru yn niffyg gwasg print cryf a sector radio masnachol cryf.

Yng Nghymru, mae'r holl wahanol fathau o gyfryngau darlledu'n bwysig wrth gyflwyno cynnwys gwasanaeth cyhoeddus o bob math.

Nid yw pawb sy'n talu ffi'r drwydded yng Nghymru'n gallu cael gafael ar yr holl gynnwys gwasanaeth cyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae cynulleidfaoedd yng Nghymru angen cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae BBC Cymru'n sefydliad pwysig ym mywyd cyhoeddus Cymru.

Dylai unrhyw adolygiad o ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ganolbwyntio'n bennaf ar sicrhau gwerth cyhoeddus ac uniondeb i gynulleidfaoedd; dim ond os byddant yn cyflawni'r diben hwnnw y bydd gwerth i luosogrwydd a chystadleuaeth.

### Cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y gynulleidfa yng Nghymru

Cred CCC fod cael dewis gan ddarlledwyr gwahanol yn beth da i gynulleidfaoedd a bod cystadleuaeth i'r BBC hefyd yn beth da. Wedi dweud hynny, mae'r BBC fel corff mawr, llwyddiannus, diduedd ac ymatebol eisoes yn bodloni llawer o ofynion gwasanaeth cyhoeddus cynulleidfaoedd yng Nghymru i'r graddau y gall un darlledwr wneud hynny.

Mae cynulleidfaoedd wastad yn pwysleisio wrth CCC yn ei weithgarwch estyn allan pa mor bwysig iddynt hwy yw gwasanaethau newyddion o ansawdd da; rhaglenni da nad ydynt yn rhaglenni newyddion ar gyfer Cymru; a phwysigrwydd portreadu Cymru'n well yn rhaglenni Rhwydwaith y BBC, ac ar sianelau eraill y DU. Ategir hyn gan ymchwil a gynhaliwyd gan Ofcom a chan y BBC.

### Gwasanaethau newyddion

Yn ychwanegol at newyddion Rhwydwaith y BBC, mae cynulleidfaoedd yng Nghymru'n cael cynnig chwe gwasanaeth newyddion gan BBC Cymru, pob un yn gosod ei gyfeiriad golygyddol ei hun. Mae newyddion teledu'n cael ei gynhyrchu yn Gymraeg (a ddarlledir ar S4C) ac yn Saesneg; mae Radio Wales a Radio Cymru ill dau'n rhoi sylw sylweddol i newyddion am Gymru, y DU ac yn rhyngwladol; ac mae bbc.co.uk/wales a bbc.co.uk/Cymru yn dangos newyddion, yn cynnwys newyddion lleol.

Mae ITV Wales yn cynhyrchu pum awr o newyddion yr wythnos. Darperir gwasanaeth newyddion S4C gan BBC Cymru. Nid oes gan Channel 4 na Five stafell newyddion yng Nghymru. Nid oes gan Radio Wales na Radio Cymru gystadleuwyr fel gorsafoedd radio cenedlaethol. Nid oes dim gorsafoedd radio masnachol yn darparu gwasanaeth cenedlaethol i Gymru.

Mae Cyngor Cynulleidfa Cymru'n dwyn sylw at ddau fater sy'n codi yn sgil y sefyllfa hon. Yn gyntaf, mewn byd delfrydol, yn sicr byddai'r gynulleidfa yng Nghymru'n cael gwell gwasanaeth petai ganddi fwy o ddarparwyr newyddion i ddewis ohonynt. Yn ail, ac efallai'n bwysicach, yn niffyg cystadleuaeth gwirioneddol gadarn mae'n hanfodol fod y BBC yn darparu gwasanaethau newyddion cynhwysfawr o ansawdd da. Mae lluosogrwydd yn sicr yn bwysig, ond a ddylid cael lluosogrwydd mewn gweithrediadau casglu newyddion neu a yw cael lluosogrwydd yn y dynesiad golygyddol yn bwysicach? Gallai lluosogrwydd olygu adlewyrchu lleisiau a gwerthoedd gwahanol a ieithoedd gwahanol gwledydd y Deyrnas Unedig ac o fewn y gwledydd hynny. Mae fframwaith rheoleiddiol Ymddiriedolaeth y BBC o Gylchoedd Gorchwyl y Dibenion a Thrwyddedau Gwasanaeth yn mynnu bod gwasanaethau'r Gorfforaeth yn darparu'r olaf. Mae'r drefn hefyd yn diogelu amhleidioldeb, uniondeb ac annibyniaeth yn ei wasanaethau.

Gan ystyried rôl allweddol bwysig ansawdd ac amrywiaeth y gwasanaethau newyddion a ddarperir gan BBC Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg o ran cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil yng Nghymru, ni fydd y gynulleidfa yn cael ei gwasanaethu os sicrheir lluosogrwydd o ran darlledwyr drwy beryglu hynny.

### Rhaglenni heb fod yn rhai newyddion

Mae CCC yn gwybod bod cynulleidfaoedd yng Nghymru hefyd yn gosod gwerth mawr ar raglenni o bob math nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Mae galw mawr am raglenni a wneir yng Nghymru ar gyfer Cymru. Hefyd, teimla'r gynulleidfa'n gryf y dylai allbwn Rhwydwaith y BBC adlewyrchu a phortreadu rhanbarthau a gwledydd gwahanol y Deyrnas Unedig yn well, gan gynnwys Cymru wrth gwrs.

Mae ITV Wales yn cynhyrchu pum awr yr wythnos o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Mae mwy o bobl yn gwylio rhaglenni ITV nad ydynt yn rhai newyddion na rhaglenni newyddion ITV. Nid oes dim ar amserlen rhwydwaith Channel 4 am Gymru a bydd hyn yn dod yn fwy o ystyriaeth adeg newid i'r digidol pan fydd pawb yng Nghymru'n gallu gwylio'r sianel.

Mae rhaglenni ffeithiol am Gymru a'i bywyd diwylliannol a dinesig yn bwysig iawn i gynulleidfaoedd yng Nghymru, fel y mae rhaglenni drama a chwaraeon. Mae'r rhain yn feysydd pwysig lle mae BBC Cymru'n comisiynu rhaglenni oddi wrth gwmnïau annibynnol ac yn gweithio gyda'r cwmnïau hyn, gan feithrin lluosogrwydd cynhyrchu a datblygu talent yn y sector darlledu yng Nghymru. Er enghraifft, roedd y gyfres ddiweddar "Coal House " yn gynhyrchiad annibynnol lle bu adrannau mewnol y BBC yn cydweithio â'r cwmni i sicrhau darpariaeth aml-lwyfan.

Mae CCC a'i ragflaenydd, Cyngor Darlledu Cymru, wedi gweld cynnydd sylweddol dros y degawd diwethaf mewn rhaglenni teledu heb fod yn rhaglenni newyddion o ansawdd da wedi'u gwneud gan BBC Cymru ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru sy'n cael eu darlledu yn ystod oriau brig. Ar y rhan fwyaf o nosweithiau'r wythnos mae BBC Cymru'n darlledu'r hyn y mae cynulleidfaoedd wedi dweud wrthynt y maent yn eu hystyried yn enghreifftiau gwerthfawr o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'r Cyngor wedi sylwi ar y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae wedi ymateb i archwaeth nad yw ond yn cael ei ddiwallu'n rhannol ar hyn o bryd gan weddill y cyfryngau Cymreig.

### Portreadu Cymru yn rhaglenni Rhwydwaith y BBC

Gan ymateb i sylwadau cryf gan ei Chynghorau Cynulleidfa, comisiynodd Ymddiriedolaeth y BBC yr Athro Anthony King i gynnal arolwg amhleidioldeb annibynnol o'r sylw a roddir ar raglenni newyddion a ffeithiol Rhwydwaith y BBC i bedair gwlad y Deyrnas Unedig. Dyma'r arolwg amhleidioldeb cyntaf a gomisiynodd yr Ymddiriedolaeth ar ôl ei sefydlu a derbyniodd yr Ymddiriedolaeth yr adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Mai. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf gan reolwyr y BBC ar yr hyn y mae nhw'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r materion sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Hefyd, mae Ymddiriedolaeth y BBC ar hyn o bryd yn rhoi sylw i gyfran y rhaglenni teledu a rhaglenni eraill sy'n cael eu comisiynu gan y BBC o du allan i Lundain.

Mater arall a dynnwyd at sylw'r Ymddiriedolaeth gan y Cyngor Cynulleidfa yw awydd y rhai sy'n talu ffi'r drwydded i weld Cymru'n cael ei phortreadu'n well ar y Rhwydwaith, fel bo'r BBC yn adlewyrchu'n gywir natur y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Dyma fath pwysig o luosogrwydd mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac nid yw'n elfen y mae unrhyw ddarlledwr masnachol yn rhoi sylw iddo ar hyn o bryd.

### Darpariaeth Aml-lwyfan

Ym mhrofiad y Cyngor Cynulleidfa, mae cynulleidfaoedd yn ystyried holl allbwn traws-gyfryngol BBC Cymru, ar deledu, radio ac ar-lein, gan gynnwys gwasanaethau lleol ar-lein, yn rhan o'r un gwasanaeth ac yn gwneud eu dewisiadau'u hunain o'i fewn. Ar gyfer pobl ifanc yn arbennig, sydd am gael mynediad i wasanaethau pryd a lle bynnag sy'n addas iddynt hwy, ar-lein fwyfwy yw'r porth i bopeth a gynigir gan y BBC. Mae'n amheus a yw ehangder yr hyn y mae BBC Cymru'n ei gynnig yn darparu cymaint o ddewis ag y bo modd yn absenoldeb lluosogrwydd yn y cyfryngau yng Nghymru.

### Mynediad i wasanaethau'r BBC

Mae BBC Cymru'n darparu ystod eang o wasanaethau ond nid yw pawb sy'n talu ffi'r drwydded yng Nghymru'n gallu eu derbyn. Yn ddieithriad, ymhob digwyddiad atebolrwydd gyda'r gynulleidfa codir hyn fel mater difrifol. Cred Cyngor Cynulleidfa Cymru ei bod yn bwysig iawn i oresgyn y problemau technegol ac ariannol sy'n bodoli er mwyn sicrhau bod pawb sy'n talu ffi'r drwydded yn gallu derbyn y gwasanaethau a ariennir gan y ffi honno.

Dim ond oddeutu 65% o boblogaeth Cymru sy'n gallu derbyn BBC Radio Wales ar FM. Daw'r cwynion mwyaf difrifol oddi wrth y rhai na allant dderbyn BBC Radio Cymru na Radio Wales - y ddwy orsaf radio genedlaethol - ar DAB (Darlledu Sain Digidol). Mae'n anodd cael gafael ar ddata cywir, ond mae'r BBC yn amcangyfrif nad yw oddeutu 55-60% o bobl yng Nghymru yn gallu derbyn BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru ar DAB ar hyn o bryd gan nad oes bidiwr masnachol ar gyfer yr amlblecs masnachol lleol sydd yn cynnal y gwasanaethau hyn. Amcangyfrifir na all oddeutu 70% siaradwyr Cymraeg dderbyn BBC Radio Cymru ar DAB. Mae unrhyw drafodaeth ar luosogrwydd y ddarpariaeth yn ddiwerth pan nad yw gwasanaethau'r prif ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus ar gael.

Mae angen rhoi sylw i fater argaeledd band-eang yng Nghymru. Pan nad oes gan gynulleidfaoedd fynediad digonol i'r Rhyngrwyd maent yn cael eu hamddifadu o gyfran enfawr o gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-lein sydd ar gael ar y llwyfan hwn a chynnwys teledu sydd ar gael drwy BBC iPlayer er enghraifft ar "bbc.co.uk".

Mae mater gorgyffwrdd o ran teledu digidol daearol yng ngogledd ddwyrain Cymru a'r nifer, fe ymddengys, sy'n dewis derbyn eu signal o Winter Hill yng ngogledd orllewin Lloegr yn dal yn fater o bwys i'r gynulleidfa. Mae hyn yn tanseilio gallu'r BBC i gyflawni'i bwrpas o gynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil. Mae'n cael effaith, fel y darganfu Ofcom yn ei ymchwil yn deillio o'r sefyllfa hwn, ar debygolrwydd pobl yng Nghymru o bleidleisio yn etholiadau Cymru ac adnabod eu Haelod Cynulliad neu eu Haelod Seneddol os oeddynt yn derbyn eu signal teledu o Winter Hill.

Dangosodd ymchwil a wnaed gan Ofcom yn 2006-07 mai'r prif reswm dros ddewis gwylio teledu o ranbarth arall oedd ansawdd derbyniad.  Mae llawer o bobl yng ngogledd ddwyrain Cymru'n ei chael hi'n anodd cael signal cryf o Gymru, ac felly maent wedi gorfod troi at Granada i wylio teledu drwy erial.   Mae hyn yn creu drwgdeimlad mewn rhai ardaloedd lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth am wylio rhaglenni yn Gymraeg a rhaglenni Saesneg o Gymru.  Mae CCC yn cydnabod y bydd lansio Freesat, menter ar y cyd rhwng y BBC ac ITV yn helpu i ddatrys rhai o'r materion hyn.

### Gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg

Mae'r cyhoedd yng Nghymru'n disgwyl i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus gael ei ddarparu yn Gymraeg a Saesneg ac mae'n egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu bod cyfrifoldebau darlledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo ddarparu gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru yn y ddwy iaith.

Ar hyn o bryd, y BBC sy'n darparu holl allbwn newyddion Cymru, y DU a newyddion rhyngwladol S4C, a rhai rhaglenni materion cyfoes a drama. Pe na byddai'r allbwn BBC yma ar gyfer Cymry Cymraeg sy'n talu ffi'r drwydded yn cael ei sgrinio ar S4C, byddai'n rhaid i'r BBC ddarganfod ffyrdd o sgrinio'r newyddion, o leiaf, ei hun. Ni ellir dweud bod y trefniant presennol yn ddefnydd o arian ffi'r drwydded at ddiben nad oedd yn cael ei chasglu ar ei gyfer. Ni allai BBC Cymru wasanaethu ei gynulleidfaoedd teledu mewn un iaith yn unig ac nid oedd yn gwneud hynny cyn dyfodiad y bedwaredd sianel.

Nid yw'n wir dweud y darperir yn ddigonol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Gymraeg cyhyd â bod cyllido S4C yn aros yn ddiogel.  Ni fyddai buddiannau Cymry Cymraeg ychwaith yn cael eu bodloni'n ddigonol gan fodolaeth allbwn yn y Gymraeg ar deledu S4C yn unig. Mae cynulleidfaoedd yn mynnu darpariaeth gynhwysfawr ar deledu,  radio ac ar-lein ac mae BBC Cymru Wales yn cymryd agwedd fwyfwy holistaidd at ei ddarpariaeth yn y ddwy iaith. Mae Cyngor Cynulleidfa Cymru wedi croesawu'n frwd y ffordd y mae BBC Cymru'n datblygu'i ddarpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd yn y Gymraeg mewn ffordd sy'n cysylltu Radio Cymru, "bbc.co.uk/Cymru" a'r deg awr yr wythnos o raglenni y telir amdanynt drwy ffi'r drwydded y mae'r BBC ar hyn o bryd yn eu darparu i S4C. Enghraifft dda o hyn yw'r allbwn ychwanegol a ddarperir ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r parth ieuenctid C2 ar Radio Cymru ar ei wefan.  Enghraifft arall yw'r ffordd y mae'r ddarpariaeth ar y we ar gyfer y rhaglen deledu Mosgito i bobl ifanc yn rhan annatod o'r arlwy. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y dull hwn yn gwella'r ddarpariaeth ac yn darparu mynediad hwylus i gynulleidfaoedd Cymraeg gan greu dewis na fyddai ar gael fel arall i'r cynulleidfaoedd hyn.  Yn hyn o beth, mae mynediad i fand eang ledled Cymru yn bwysicach byth.

### BBC Cymru fel sefydliad

Yn Diffinio" "Cenedl": "Cymru a'r BBC (2004) ysgrifennodd Huw Edwards:

"""Does gen i ddim amheuaeth mai un o ddigwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn hanes Cymru oedd cychwyn BBC Cymru-Wales.  Mae BBC Cymru-Wales wedi bod wrth galon y genedl Gymreig am 80 o flynyddoedd. Mae'n sefydliad cenedlaethol cydnabyddedig: does neb o ddifri yn amau ei bod yn un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr ac arwyddocaol.

"""Mae BBC Cymru-Wales yn rhannu statws Prifysgol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol ac - yn fwy diweddar - y Cynulliad Cenedlaethol fel un o symbolau amlycaf ein cenedligrwydd. Mae ei chyfraniad at y broses o hybu Cymru ar y teledu a'r radio drwy'r Deyrnas Unedig ac ymhellach wedi bod yn anfesuradwy."

Mae Cyngor Cynulleidfa Cymru'n ategu'r farn honno, gan ychwanegu hefyd fod y cyfraniad bellach ar-lein hefyd.

Cred y Cyngor y byddai'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd BBC Cymru a'i lle ym mywyd Cymru. Mae'n darparu gwerth cyhoeddus enfawr drwy'r ffyrdd y mae'n cyflawni'i ddyletswyddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ei ystyr ehangaf a chyfeirir at hyn yn gyson yng nghyfarfodydd CCC gyda chynulleidfaoedd ar draws Cymru.

Mae CCC yn clywed tystiolaeth ddiddorol gan gynulleidfaoedd am werth y BBC fel sefydliad yng Nghymru. Yr hyn sy'n dod i'r amlwg yn rymus iawn yn holl gyfarfodydd y Cyngor Cynulleidfa â holl sectorau'r gynulleidfa amrywiol yng Nghymru yw'r ymdeimlad cryf o berchnogaeth o BBC Cymru. Mae'r gynulleidfa'n ymddiried yn fawr ynddo hefyd. Fel cyfeillion beirniadol sy'n ei werthfawrogi'n fawr y mae pobl yn trafod BBC Cymru yn hytrach na fel rhai sy'n rhwystredig oherwydd diffygion corfforaeth monolithig.

Mae'r Cyngor Cynulleidfa hefyd yn ymwybodol o'r rôl hanfodol bwysig y mae BBC Cymru cryf yn ceisio'i chyflawni o ran cynnal diwydiant darlledu iach yng Nghymru. Mae sector annibynnol iach yn hanfodol ar gyfer darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd da i gynulleidfaoedd.

Mae gan y BBC hefyd ran bwysig iawn ym mywyd cerddorol y genedl ac mae'n cynnal yr unig gerddorfa symffoni lawn yng Nghymru. Mae ei gyfraniad at fywyd deallusol y genedl yn sylweddol a gwnaethpwyd y Cyngor yn ymwybodol gan ddysgwyr a rhieni yng Nghymru o rôl unigryw'r BBC ym maes addysg pan ataliwyd gwasanaeth JAM y BBC y llynedd gan Ymddiriedolaeth y BBC, gan amddifadu dysgwyr o gymorth cwricwlaidd nad oedd ar gael fel arall yn y Gymraeg na'r Saesneg.  Yn yr un modd mae Cyfryngau Newydd BBC Cymru wedi bod ar flaen y gad gyda datblygiadau yn ei faes, un enghraifft amlwg yw'r geiriadur Cymraeg - Saesneg ar-lein unigryw ac arloesol -VOCAB.

Mae gwerth cyhoeddus o gael sefydliad sydd wedi'i gynllunio a'i lunio i ymgorffori a darparu annibyniaeth, uniondeb a amhleidioldeb ar draws yr holl gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Mae hefyd gwerth gwasanaeth cyhoeddus o gael darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol ochr yn ochr y gwyddys eu bod yn cyflawni rhai dyletswyddau er budd cynulleidfaoedd.  Mae brandiau yn bwysig.

### Gwerth cyhoeddus mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae'r BBC wedi bod yn gweithredu o dan ei Siarter Brenhinol newydd am llai na deunaw mis. Bwriad y Siarter honno oedd sicrhau annibyniaeth ac uniondeb y BBC a sicrhau ei fod yn cyflawni chwe Diben Cyhoeddus a sicrhau gwerth am arian o ffi'r drwydded. Mae gan y BBC gyfrifoldeb i roi lle blaenllaw i fuddiannau'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded ym mhopeth a wna ac mae gan y Cynghorau Cynulleidfa rôl allweddol yn hynny o beth.

Yn ystod y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r strwythurau newydd dros y misoedd diwethaf, mae Cyngor Cynulleidfa Cymru o'r farn bod y BBC wedi cael llawer o bethau'n iawn erbyn hyn.  Mae'r berthynas newydd rhwng Ymddiriedolaeth y BBC a Gweithrediaeth y BBC a Chylchoedd Gwaith y Dibenion a'r Trwyddedau Gwasanaeth newydd yn darparu strwythur lle gall Ymddiriedolaeth y BBC ddal y BBC yn atebol er budd gorau'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded.

### Casgliad

Cred Cyngor Cynulleidfa Cymru fod buddiannau cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu orau gan ddewis mor eang â phosibl o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd da. Dylai unrhyw arolwg o ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ganolbwyntio'n bennaf ar sicrhau gwerth cyhoeddus ac uniondeb i gynulleidfaoedd; dim ond os byddant yn cyflawni'r diben hwnnw y bydd gwerth i luosogrwydd a chystadleuaeth. Yn y dyfodol, os bydd darparu lluosogrwydd yn profi'n fasnachol anghynaladwy, mae CCC yn amau'n gryf a ellir cyflwyno budd cyhoeddus drwy erydu neu leihau rôl y BBC er mwyn ceisio sicrhau elfen o luosogrwydd.